# PROSIECT CARTREFI O BREN LLEOL

# THE HOME-GROWN HOMES PROJECT




## ASTUDIAETH ACHOS: GWEITHGYNHYRCHYDD

### Arloesedd dan arweiniad partneriaeth

woodknowledge WALES

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# PARTNERIAETH TAI TARIAN A SO MODULAR

Mae dau sefydliad yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cydweithio i wneud cyfraniad sylweddol at weithgynhyrchu gwell ac at ôl-osod a datblygu tai cymdeithasol newydd yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn dangos sut mae cyllid wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo arloesedd a chydweithio

TMae dau sefydliad yng Nghastell-nedd Port Talbot yn cydweithio i wneud cyfraniad sylweddol at weithgynhyrchu gwell ac at ôl-osod a datblygu tai cymdeithasol newydd yng Nghymru. Mae'r bartneriaeth yn dangos sut mae cyllid wedi'i dargedu gan Lywodraeth Cymru yn hyrwyddo arloesedd a chydweithio.

Mae prosesu pren a Dulliau Adeiladu Modern (MMC) yn allweddol i lwyddiant y cydweithrediad hwn. Mae'r bartneriaeth rhwng Tai Tarian, un o ddarparwyr tai cymdeithasol mwyaf Cymru, a'r gwneuthurwr pren gwell, Sevenoaks (SO) Modular, yn dangos sut y gall ymyrraeth ariannol ochr yn ochr â meddwl creadigol ysgogi newid yn y sector adeiladu. Mae'r lefel hon o gefnogaeth gan y llywodraeth hefyd yn creu cyfleoedd cyflogaeth ac yn datblygu sgiliau ar draws y gadwyn gyflenwi pren a'r sector adeiladu.




*Mae buddsoddiad SO Modular yn golygu effeithlonrwydd gwell Prosiect Fflatiau Sirol*



*Tai Tarian – cymysgedd o fathau o adeiladau*

MODULAR

Tai Tarian

# CYFRANOGWYR ALLWEDDOL

**Tai Tarian** yw un o'r landlordiaid cymdeithasol mwyaf yng Nghymru. Wedi'i leoli ym Mharc Ynni Baglan, mae'r cwmni'n berchen ar ac yn rheoli dros 9,000 o gartrefi ledled Castell-nedd Port Talbot. Cafodd ei greu gan drosglwyddo stoc tai Castell-nedd Port Talbot yn 2011. Mae Tai Tarian yn gwella ei gartrefi presennol yn weithredol i fodloni'r safonau diweddaraf yn ogystal ag adeiladu cartrefi newydd ac mae wedi ymrwymo i ddod yn sefydliad carbon niwtral erbyn 2030 gan sicrhau bod ei gartrefi newydd yn cyflawni lefelau uchel o gynaliadwyedd.



*"Mae Tirnod wedi'i greu fel is-gwmni i Tai Tarian ac mae'n ein galluogi i weithio mewn partneriaeth â SO Modular ar draws nifer o ddyheadau ar y cyd, yn enwedig cynyddu nifer y cartrefi a adeiladir gan ddefnyddio dulliau adeiladu modern. Ein nod yw buddsoddi mewn cymunedau lleol mewn ffordd gynaliadwy a thrwy'r bartneriaeth hon rydym yn cyflawni hynny drwy gefnogi datblygiad sgiliau lleol a thrwy ddarparu cyfleoedd hyfforddiant a gwaith".*

**Dywedodd Linda Whittaker, Prif Weithredwr Tai Tarian**

Sefydlwyd **SO Modular** ym 1996 ac mae wedi'i leoli yng Nghastell-nedd. Mae'n dylunio, cynhyrchu a chodi tai ffrâm bren, â phaneli a thai cwbl fodiwlaidd o bren. Mae'n gweithio gyda'i chwaer gwmni, JG Hale, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai i ddatblygu prosiectau masnachol, tai ac addysg ledled Cymru a Gorllewin Lloegr. Mae'r cwmni wedi bod yn cynhyrchu fframiau pren panel caeedig ers blynyddoedd lawer ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae wedi symud i ffurfiau mwy arloesol o weithgynhyrchu, gan gynhyrchu systemau wal panel caeedig gyda chroen allanol yr adeilad wedi'i ymgorffori yn y panel, ynghyd â systemau cyfeintiol. Mae gwasanaethau trydanol a phlymio, ceginau ac ystafelloedd ymolchi, plastrfyrddau, peintio, ffenestri a drysau, yn ogystal â chladin allanol, i gyd yn cael eu gosod a'u cwblhau yn y ffatri cyn eu danfon i'r safle. Mae'r ffocws hwn ar weithgynhyrchu oddi ar y safle yn cynhyrchu effeithlonrwydd go iawn, yn gwella perfformiad adeiladau, diogelwch a chynaliadwyedd, yn lleihau gwastraff ac yn arwain at lai o aflonyddwch i gymunedau lle mae prosiectau'n cael eu datblygu.



*"Rydym wedi meithrin enw da am ddarparu cynnyrch o ansawdd premiwm ac mae gennym bellach yr adnoddau, y bobl, y peiriannau a'r llinellau cynnyrch i gynyddu nifer ac amrywiaeth y cartrefi y gallwn eu darparu i'r sector tai, sy'n golygu y gall pobl nawr fyw mewn cartrefi cynhesach a mwy cynaliadwy, wedi'u hadeiladu'n gyflym y tu mewn i'n ffatri."*

**Dywedodd Charlotte Hale, Cyfarwyddwr yn SO Modular**

# NARATIF

Sefydlodd landlord tai cymdeithasol Castell-nedd Port Talbot, Tai Tarian, is-gwmni sy'n eiddo llwyr iddo o'r enw Tirnod. Galluogodd hyn iddynt fuddsoddi £2.85M o gyllid Llywodraeth Cymru i brynu offer prosesu pren.

Llogodd SO Modular, sydd wedi'i leoli yn ffatri eiconig 'Metal Box' yng Nghastell-nedd, yr offer er mwyn prosesu pren a gafwyd o Felinau Llifio Pontrilas yn fwy effeithlon. Roedd mynediad at beiriannau newydd yn hwyluso trawsnewid cyfresi cynnyrch ac allbwn.

Gan weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth, trawsnewidiodd Tai Tarian a SO Modular ddatblygiad blaenorol County Flats yn Aberafan. Drwy ôl-osod cartrefi presennol i safon uchel, a oedd yn cynnwys ymgorffori unedau modiwlaidd ffrâm bren, llwyddodd Tai Tarian i gynyddu nifer y cartrefi sydd ar gael i denantiaid eu rhentu yn y cynllun.

## MAE CEFNOGAETH LLYWODRAETH CYMRU YN ALLWEDDOL I FENTRAU ADEILADU CYNALIADWY

Mae Llywodraeth Cymru wedi annog symudiad SO Modular i gynhyrchu cydrannau ar gyfer cartrefi cymdeithasol mewn ffatri, proses a elwir yn Ddulliau Adeiladu Modern (MMC). Mae'r Llywodraeth eisiau gweld datblygu atebion mwy cynaliadwy i ddadgarboneiddio'r economi a'r amgylchedd adeiledig. Mae hefyd eisiau cefnogi mentrau ac arloesedd yn yr economi gylchol a sylfaenol.

Mae cyllid wedi'i gyfeirio at ddarparwyr tai cymdeithasol sy'n fodlon mabwysiadu MMC ac adeiladu cydrannau pren oddi ar y safle ar gyfer tai cymdeithasol. Fel rhan o'i Rhaglen Tai Arloesol, roedd Llywodraeth Cymru eisiau dod o hyd i ffordd o gefnogi buddsoddiad SO Modular yn y systemau, y prosesau a'r offer yr oedd eu hangen arno i ehangu a gwella ei weithrediad, ei gynhyrchion a'i allbwn yn sylweddol.

## CYTUNDEB ARIANNOL ALLWEDDOL YN CEFNOGI CYDWEITHIO

Yn 2020, canolbwyntiodd deialog rhwng SO Modular, Llywodraeth Cymru a Tai Tarian ar y ffordd orau o sicrhau cefnogaeth ariannol. Yn allweddol i'r cytundeb ariannol hwnnw oedd creu is-gwmni masnachu newydd, sef Tirnod. Crëwyd yr is-gwmni gan Tai Tarian i dderbyn benthyciad di-log o £2.85M gan Lywodraeth Cymru i alluogi prynu offer. Yna prydlesodd SO Modular yr offer oedd ei angen arnynt gan Tirnod, ar y ddealltwriaeth y byddai'r rhan fwyaf o'i allbwn yn canolbwyntio ar ddarparu asedau sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol a gafwyd gan, neu ar gyfer, awdurdodau lleol a chymdeithasau tai yng Nghymru. Ynghyd â £954,000 o gyllid uniongyrchol gan SO Modular, cynhyrchodd hyn gyfanswm o fuddsoddiad o £3.8M yn y ffatri.

Cefnogodd y dull cydweithredol hwn gynnydd yn nifer y cartrefi newydd a adeiladwyd oddi ar y safle, yn ogystal â chyfleoedd lleol ar gyfer hyfforddiant a gwaith. Tynnodd y perthnasoedd newydd sylw hefyd at gyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio rhwng Tai Tarian, SO Modular a phartneriaid eraill (gan gynnwys sefydliadau ymchwil) ar draws y gadwyn gyflenwi leol.

## TRAWSNEWID CYFRESI CYNNYRCH AC ALLBWN GWEITHGYNHYRCHU PREN

Galluogodd y buddsoddiad SO Modular i brydlesu a gosod offer i brosesu pren yn fwy effeithlon, gan drawsnewid ei linellau cynnyrch a'i allbwn.

Roedd yr offer yn cynnwys:

- llifiau perfformiad uchel sy'n gallu gwneud y defnydd mwyaf o bren,
- gwaith trin i ganiatáu i bren gael ei drin â chadwolion ar y safle,
- craeniau sy'n gallu codi'r cydrannau pren trwm ar draws llawr y ffatri,
- chwythwr ffibr pren i ganiatáu i fframiau pren gael deunydd inswleiddio wedi'i osod yn y ffatri, a
- llif wal i alluogi torri byrddau'n fertigol.

Gosodwyd amryw o fyrddau gweithgynhyrchu a raciau storio i alluogi cydrannau i gael eu gosod yn sgwâr, eu codi a'u troi drosodd. Mae hyn yn caniatáu i weithwyr gael mynediad atynt o'r ddwy ochr. Yn ogystal, gosodwyd cywasgwyr, offer a phibellau aer cywasgedig, system echdynnu llwch, a phecyn cyfrifiadurol yn y ffatri i alluogi trosglwyddo lluniadau digidol i'r llifiau ar gyfer prosesu pren yn gyflym ac yn effeithlon.

Comisiynwyd yr offer ym mis Mai 2021. Ers hynny, mae SO Modular wedi:

- cynhyrchu 35% yn fwy o systemau ffrâm bren â phaneli,
- dechrau dylunio a chynhyrchu systemau modiwlaidd cyfeintiol,
- datblygu tair system baneli cynaliadwy newydd gan ddefnyddio inswleiddio naturiol,
- lleihau gwastraff 15% ac yn ei dro lleihau costau cynhyrchu,
- lleihau digwyddiadau iechyd a diogelwch adroddadwy i ddim,
- gwella ansawdd adeiladu a pherfformiad ffabrig y systemau y mae'n eu cynhyrchu, a
- chychwyn datblygiad canolfan hyfforddi oddi ar y safle.

Mae'r pren y mae SO Modular yn ei ddefnyddio yn cael ei dyfu gartref ac yn cael ei gyflenwi gan Felinau Llifio Pontrilas. Mae'r ddau sefydliad wedi gweithio'n galed i

sicrhau cyflenwad rheolaidd o ddeunydd sydd fwyaf addas ar gyfer y broses weithgynhyrchu ac i oresgyn rhai o'r heriau o ddefnyddio deunydd o goedwigoedd Cymru.

### BODLONI SAFONAU ANSAWDD TAI

Mae Tai Tarian a SO Modular yn cydweithio'n agos ar brosiectau tai cymdeithasol yn ardal Castell-nedd a Phort Talbot. Mae Prosiect County Flats Tai Tarian yn Aberafan yn gweld trawsnewid cyfres o fflatiau a adeiladwyd yn y 1960au yn llety sy'n bodloni safonau ansawdd tai cyfredol. Ochr yn ochr ag ôl-osod fflatiau presennol, mae timau adeiladu yn codi fframiau pren ac unedau modiwlaidd i ymestyn a chynyddu nifer yr unedau sydd ar gael ar y safle. Mae'r prosiect yn enghraifft berffaith o sut mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru wedi galluogi adfywiad cyflym ac arloesol yr ardal hon.

## EFFAITH

Mae'r buddsoddiad hwn yn dangos y defnydd effeithiol o gyllid Llywodraeth Cymru i alluogi rhanddeiliaid yn y diwydiant pren ac adeiladu i arloesi ac uwchraddio eu proses weithgynhyrchu. Mae'r lefel hon o gefnogaeth wedi helpu i drawsnewid gweithgynhyrchu oddi ar y safle ac yn y pen draw wedi darparu mwy o dai cymdeithasol o ansawdd gwell.

I Woodknowledge Wales, mae'r astudiaeth achos hon yn dangos pa mor bwysig yw defnyddio cymorthdaliadau cyhoeddus yn greadigol i gefnogi diwydiant yn unol â pholisi'r Llywodraeth. Fe wnaeth cydweithio uniongyrchol rhwng darparwr tai cymdeithasol a gwneuthurwr feithrin math newydd o berthynas cadwyn gyflenwi. Daeth y berthynas hon â'r broses ddylunio a gweithgynhyrchu ynghyd, gwellodd ddealltwriaeth ar y cyd, a gwnaeth y mwyaf o'r cyfle ar gyfer arloesi ac effeithlonrwydd prosesau ac adeiladu.



**Awdur: Woodknowledge Wales**

*Cafodd yr astudiaeth achos hon ei hysgrifennu fel rhan o'r prosiect Cartrefi o Bren Lleol a chafodd ei ariannu gan Lywodraeth Cymru*

**Woodknowledge Wales Limited**
Ffarm Moelyci, Felin Hen Road, Tregarth, Gwynedd, LL57 4BB

© WoodKnowledge Wales, 2025